**Cofnodion cyfarfod Cyngor Tref Dinbych a gynhaliwyd nos Lun Tachwedd 24ain 2014 yn Neuadd y Dref Dinbych am 6.30 o'r gloch.**

**Presennol:** Cynghorwyr Rob Parkes, Raymond Bartley, Margaret Bowe, Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Geraint Williams, Colin Hughes, Colin L Hughes, Brian Davies, Mark Young, Roy Tickle, Gaynor Wood, Catherine Jones, Philip Stevens a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Shereen Devine.

**Arsylwi:** Cynghorydd Sir Gwyneth Kensler

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**139 Cyflwyniad gan Lynn Wilson ar Fenter Gymdeithasol yn y Carriage Works.**
Croesawodd y cadeirydd Lynn Wilson a Veronica...... Gwahoddodd y cadeirydd Lynn Wilson i annerch y cyfarfod.
Datganodd y Cyng Rob Parkes ddiddordeb am ei fod yn gyfarwyddwr o'r Fenter.
Agorodd Lynn Wilson y cyflwyniad drwy ddweud ei bod yn chwilio am gefnogaeth i'r hyn oedd yn digwydd yn y Carriage Works. Roedd y fenter yn gwmni diddordeb y gymuned ac yn gwmni oedd ddim am wneud elw ac o fudd i'r gymuned. Roedd yn ymglymu celfyddydau a chrefftau a gyda rhan i'w chwarae yn yr economi lleol. Ar ôl sefydlu siop ym Mryn Siriol Dinbych cafwyd fod ymateb yn y dref i nwyddau crefftus lleol gyda phobl yn mynychu'r siop am sgwrs. Roedd crefftwyr bywiog a dynamig yn y dref. Daeth yr adeilad ym Mryn Siriol yn rhy fach a datblygwyd hedyn o syniad ar gyfer menter gymdeithasol a'r angen am adeilad mwy - o ganlyniad adeilad y Carriage Works yn Lyf Lôn. Mae'r adeilad yn cynnig lle i fanwerthu ar y llawr gwaelod gyda bwyty / cyfleusterau bwyta ar y llawr cyntaf. Cofrestrwyd y fenter gyda budd i'r gymuned. Trafodaethau yn cymryd lle gyda Gwasanaeth Cymdeithasol CSDd, Age Connect, Cymdeithas Strôc a Mind a hefyd yn gweithio gyda Hwb Dinbych.
Ymatebodd Lynn Wilson i gwestiynau a sylwadau'r aelodau ar (1) cyhoeddusrwydd ar gyfer y fenter, (2) Costau ailwampio, ariannu a grantiau, (3) Graddfa amser. Dymunodd yr holl aelodau oedd yn bresennol pob llwyddiant i'r fenter.
Diolchodd y cadeirydd i Lynn Wilson am ei phresenoldeb a'i chyflwyniad a gobeithiodd y bydd y cynllun yn llwyddiant yn Ninbych.
Trefniadau i'w gwneud i'r aelodau fynychu'r adeilad.

**140. Materion Brys**: Nid oedd unrhyw fater brys.

**141. Datganiad Diddordeb Personol:** Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Raymond Bartley – holl faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.
(2) Cyng Colin Hughes - holl faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.
(3) Cyng Geraint Williams - holl faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych.
(4) Cyng Medwyn Williams - eitem agenda 9(2) - Cymorthdaliadau -Thomas Gee a Gwefr Heb Wifrau.
(5) Cyng Raymond Bartley – eitem agenda 9(2) – Cymorthdaliadau – Cymdeithas Gymraeg and Sant Cyndeyrn.
(6) Cyng Colin Hughes – eitem agenda 9(2) – Cymorthdaliadau – Sant Cyndeyrn.
(7) Cyng Rob Parkes – eitem agenda 9(2) – Cymorthdaliadau – Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru.
(8) Cyng Colin L Hughes – eitem agenda 9(2) – Cymorthdaliadau – Gwefr Heb Wifrau.

**42. Derbyniwyd Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Hydref 27ain 2014, Cofnodion Cyfarfod Pwyllgorau Cynllunio, Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd ar Dachwedd 10fed 2014 a Chofnodion Cyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd ar Dachwedd 17eg 2014.**

**143. Materion yn codi: 27.10.14:** (1) Cofnod 116(2) – Ysgol Howell. Mewn ateb dywedodd clerc y dref ei fod ar ddeall nad oedd y cwmni o America bellach a diddordeb yn y safle. **10.11.14**: (2) Cofnod 134(1) – Allt y Brwcws ar Hen Ffordd Rhuthun. Dywedodd y Cyng Bartley fod y palmant bellach wedi ei glirio.

**144. Adroddiad y Maer.** Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Maer.

**145. Llythyrau a Hysbysiadau:** Cytunwyd i nodi dwy eitem o ohebiaeth a dderbyniwyd

2. Cytunwyd i nodi a gweithredu fel bo angen ar y canlynol:

(1) Prosiect Cysylltu'r Castell – cytunwyd, yn ychwanegol at y Maer, fod y Cyng Gaynor Morgan Rees yn cynrychioli'r cyngor yn y dathliad o gwblhau'r prosiect bore dydd Gwener Tachwedd 28ain.
(2) Cyfeiriwyd yr ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth yr Urdd at yr is bwyllgor cymorthdaliadau.

**146. Cynllunio**: Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd peidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio:

(1) Pen y Cae, Pwll y Grawys
(2) Bryn Hyfryd, Ffordd y Rhyl
(3) 43, Crud y Castell

2. Materion Cynllunio eraill. (1) Nodwyd pedair tystysgrif cynllunio a dderbyniwyd.

**147. Cofnodion / adroddiadau is bwyllgorau'r cyngor** (1) TGC. Derbyniwyd ac ystyriwyd cofnodion cyfarfod diweddar. Dywedodd y Cyng Geraint Williams fod CSDd yn dal i edrych ar CCTV a bod grŵp tasg a gorffen yn edrych ar ariannu allanol. Cytunwyd i beidio â gwneud penderfyniad ar hyn o bryd. Derbyniwyd sylw ynglŷn â allai costau canolog fod yn fforddiadwy a'r angen i sicrhau fod y sustem a ddefnyddir yr un orau oedd ar gael. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **fod y cyngor yn ysgrifennu at Graham Boase yn NgSDd i ofyn am i'r cyngor gael diweddariad ar ddatblygiadau CCTV.**

(2) Cymorthdaliadau: Ystyriwyd cofnodion cyfarfod diweddar. Ystyriwyd a chymeradwywyd pob un cais oedd yn gynwysedig o fewn y cofnodion fel a ganlyn:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Cymdeithas y Byddar Gogledd Cymru | - | £100 (A.137)(rhif siec 005497) |
| (2) | Clwb Rotary Dinbych | - | £500 (A.137)(rhif siec 005498) |
| (3) | Cymdeithas Gymraeg Dinbych | - | £250 (A.145)(rhif siec 005499) |
| (4) | Gofal a Thrwsio Sir Ddinbych | - | £300 (A.137)( rhif siec.005400) |
| (5) | Eisteddfod Genedlaethol 2015 | - | £250 (A.145)( rhif siec 005501) |
| (6) | Bobath Cymru | - | £100 (A.137)( rhif siec 005502) |
| (7) | Eisteddfod Ryngwladol Llangollen | - | £100 (A.145)( rhif siec 005503) |
| (8) | Cadwyn Clwyd | - | £500 (A.137)( rhif siec 005504) |
| (9) | Sant Cyndeyrn | - | £1,200 (A.137)( rhif siec.005506) |
| (10) | Pwyllgor Dathlu Geni Thomas Gee | - | £500 (A.137)( rhif siec.005507) |
| (11) | Theatr Bara Caws | - | £200 (A.145)( rhif siec 005508) |

(12) Gohiriwyd y cais a dderbyniwyd oddi wrth Ford Gron Dinbych er mwyn cael mwy o wybodaeth a mantolen / cyfrifon.
(13) Gohiriwyd y cais a dderbyniwyd oddi wrth Gwefr Heb Wifrau er mwyn cael mwy o ddyfynbrisiau am y gwaith a amlinellwyd.

**148. Adroddiadau**: (1) CCTCGC. Cafwyd adroddiad byr gan glerc y dref am gyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar gan gynnwys y cyfarfod blynyddol. Ychwanegodd y Cyng Colin Hughes

a Geraint Williams at yr adroddiad. Cytunwyd fod cofnodion y cyfarfod blynyddol a'r cyfarfod chwarterol yn cael ei ddosbarthu i'r aelodau er gwybodaeth. Cytunwyd y dylai grŵp marchnata'r ddolen edrych ar ffyrdd o hyrwyddo'r ddolen mewn digwyddiadau.

(2) Thomas Gee. Cafwyd adroddiad byr llafar gan glerc y dref ar y cynlluniau i ddathlu 200 pen-blwydd geni Thomas Gee. Penwythnos o ddathlu rhwng Ionawr 23ain a'r 25ain 2015. Darlith nos Wener 23ain. Arddangosfa yn yr Amgueddfa dydd Sadwrn 24ain a Gwasanaeth yn y Capel Mawr dydd Sul 25ain am 10 y bore gyda Chymanfa Ganu yn yr hwyr am 6 o'r gloch. Yr arddangosfa i'w hagor gan Dr Dorothy Gee o Vancouver.

(3) Arwyddion ar yr A55. Cafwyd adroddiad byr llafar gan glerc y dref ar gyfarfod a gynhaliwyd yn ddiweddar. Roedd y Gweinidog, Ken Skates AC, yn gefnogol mewn egwyddor. Trafodaethau pellach i gymryd lle gyda swyddogion Llywodraeth Cymru. Roedd yn bosib y bydd angen ail-eirio'r cais gwreiddiol. Roedd y mater yn symud ymlaen i'r cyfeiriad iawn. Roedd y gost am ddau arwydd tua £80,000. Byddai arwyddion cyfeiriad pellach eu hangen ar ôl gadael yr A55. Roedd rhywfaint o ariannu ar gael gan Lywodraeth Cymru.

*Yn y man yma gadawodd y Cyng Philip Stevens y cyfarfod am 7.40 o'r gloch.*

(4) Ysgol Pendref. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Roy Tickle ar gyfarfod Llywodraethwyr a gynhaliwyd yn ddiweddar – roedd pob peth ar i fyny ac yn ffafriol yn yr ysgol.

(5) Ysgol Twm o'r Nant. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Medwyn Williams fod y Llywodraethwyr wedi ymgymryd â hyfforddiant fformiwla cyllid ar gyfer ysgolion ac oedd wedi bod o fydd i'r llywodraethwyr.

(6) Amgueddfa Dinbych. Dywedodd y Cyng Mark Young fod pob peth yn dda yn yr amgueddfa ac yn symud ymlaen y araf.

(7) Ysgol y Santes Ffraid. Dywedodd y Cyng Geraint Williams fod yr ysgol yn dathlu ei phen-blwydd yn 75 oed. Cafwyd "porta cabin" ail law yn lle'r rhai presennol. Cafwyd mwy o ystafelloedd dysgu ar ôl gwneud i ffwrdd a'r cyfleusterau preswyl.

(8) Ysgol y Parc. Dywedodd y Cyng Rob Parkes fod y Llywodraethwyr wedi penodi cadeirydd newydd.

(9) Dywedodd y Cyng Rob Parkes ei fod wedi mynychu'r cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd yn y dref ar Dachwedd 13eg. Bu'r cyfarfod yn un diddorol dan gadeiryddiaeth y Cyng Gwyneth Kensler. Bu i'r rhai oedd yn mynychu ymddwyn yn rhesymol. Daeth y cyfarfod i'r canlyniad fod yr heddlu ond yn medru gwneud beth oedd o fewn eu cylch gwaith. I gysylltu â'r AS lleol ynglŷn â newid y gyfraith.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

**149. Adroddiadau gan y Cynghorwyr Sir ar Faterion oedd yn Briodol i Ddinbych yn unig:**

1. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Geraint Williams - Roedd safle Lôn Ganol ar y farchnad ac ar werth fel preswyl. Yn dilyn trafodaeth fer cytunwyd y dylai'r cyngor tref gysylltu â'r ymddiriedolwyr i bwysleisio'r angen fod angen tai fforddiadwy ar y safle.

2. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Raymond Bartley: (1) Y gwaith o atgyweirio wal yr Ysgol Uwchradd yn Rhodfa Clwyd wedi ei oedi tra bydd problemau carthffosiaeth yn cael eu trin. (2) Roedd goryrru yn y Green yn broblem. Roedd profion gyrru yn cymryd lle ac arwyddion camerâu i'w gosod.

3. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Colin Hughes: (1) Goryrru pen uchaf Stryd Henllan yn broblem a hefyd ar Lôn Llewelyn, (2) Y ddamwain drasig ddiweddar yng Nghyffordd Pen Cae Du - lansiwyd ymgyrch - dylai'r cyngor tref fod yn ymglymedig.

4. Cafwyd adroddiad gan y Cyng Gwyneth Kensler: (1) Yn gofyn am gefnogaeth y cyngor tref I dynnu i lawr y ceiliog gwynt ar adeilad yr hen Ysgol Ramadeg yn Lôn Ganol er mwyn ei gadw'n ddiogel. Cytunodd y cyngor tref i ysgrifennu at yr ymddiriedolaeth. (2) Gofynnodd i'r cyngor tref edrych ar arwyddion ynghanol tref yr Wyddgrug oedd yn cyfeirio at Lanelwy ac nid Dinbych.

**150. Cyfrifon** 1. Penderfynwyd talu'r cyfrifon canlynol:

| | | | |
|---|---|---|---|
| (1) | Sandra Williams – gwasanaeth cyfieithu 13/10 & 27/10<br>(Rhif siec 005490) | - | £260.40 |
| (2) | Cadwyn Clwyd - ariannu cyfatebol ynglŷn â thywyswyr taith<br>(Cofnod 99(2)(4) yn cyfeirio)<br>(Rhif siec 005491) | - | £445.00 |
| (3) | BT – bil ffon<br>(Rhif siec 005492) | - | £172.21 |
| (4) | Catalyst Systems – storfa data saff oddi ar y safle (Hydref)<br>(Rhif siec 005493) | - | £8.22 |
| (5) | Clerc y Dref – costau teithio (Caernarfon)(i'w rannu a'r Cyng Colin Hughes gan y defnyddiwyd dau gerbyd)<br>(Rhif siec 005494) | - | £41.94 |
| (6) | Zen Internet – darpariaeth ADSL (Rhagfyr)<br>(Rhif siec 005495) | - | £18.37 |
| (7) | Dŵr Cymru – Gardd Dr E P<br>(Rhif siec 005496) | - | £417.00 |
| (8) | E Martin - cloi ac agor giât Gardd Dr E P Garden<br>(Rhif siec 005509) | - | £60.00 |

Cyfanswm taliadau: £1,423.14

**2.** Unrhyw faterion ariannol eraill**:** (1) Nodwyd derbyn £575 oddi wrth Lidl sef arian noddi bin sbwriel yng Ngardd Goffa Dr Evan Pierce.
(2) SLCC - nodwyd cytundeb codiad cyflog llywodraeth leol a chytunwyd i'r cytundeb gael ei weithredu.
(3) Cytunwyd fod adroddiad cyfrinachol clerc y dref ynglŷn â'r cynilion oedd yn bosibl ar gyllideb y cyngor yn cael ei drin o dan Ran 2.

**151. Awgrymiadau Cyllideb Cyngor Sir Ddinbych**. Ystyriodd y cyfarfod yr ymateb drafft fel a baratowyd gan glerc y dref yn dilyn y cyfarfod ar Dachwedd 10fed. Dywedwyd fod y drafft yn gyflawn ac i'w yrru i GSDd. **Penderfynwyd cymeradwyo'r ymateb a'i yrru.**

Yn y fan yma symudodd y cyfarfod i Ran 2

Yn dilyn cwblhau'r busnes o dan Ran 2 ac am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 8.42 o'r gloch.

Arwyddwyd:...................................................... (cadeirydd)

Dyddiad:........................